Diwygiadau i Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio

Statws Wedi dod i ben
Dyddiad lansio 20 Awst 2020
Dyddiad cau 16 Medi 2020
Summary of responses
View crynodeb-or-ymatebion-ir-ymgynghoriad-cyfraith-yr-ue-a-ddargedwir-ar-gyfer-diogelwch-a-hylendid-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid-ar-gyfer-diwedd-y-cyfnod-pontio.pdf as PDF (207.8 KB)

Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau pellach i reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU), gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol trwy gymhwyso'r Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon, sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i fod yn effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Ceisio barn busnesau, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill, awdurdodau lleol a'r cyhoedd ehangach ar newidiadau y mae Gweinidogion yn bwriadu eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Pecyn ymgynghori

Cymru

View Diwygiadau i Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y C as PDF (176.38 KB)

Sut i ymateb

Mae'n rhaid i ymatebion ddod i law erbyn **16 Medi 2020.**

Dylid anfon ymatebion dros e-bost at: EUExitPolicy@food.gov.uk

Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, rydym ni'n anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd a darparu dolen iddo o'r dudalen hon.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym ni'n trin data a ddarparwyd mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag Egwyddorion Ymgynghori Llywodraeth EM. Os oes Asesiad Effaith wedi cael ei gynhyrchu, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os nad oes Asesiad Effaith wedi cael ei ddarparu, bydd y rheswm yn cael ei nodi yn y ddogfen ymgynghori.